***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 434

## Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio 2005

**Diwygio'r Prif Reoliadau**

**2.** Yn rheoliad 3(1) —

(a) ym mharagraffau (i) a (ii) o'r diffiniad o "cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd" yn lle'r geiriau "ym mhrofion y CC" rhodder y geiriau "mewn asesiadau gan athrawon";

(b) yn y diffiniad o "lefel 4" a "lefel 5" yn lle'r geiriau "profion y CC" rhodder y geiriau "asesiadau gan athrawon"; ac

(c) rhodder ar ôl y diffiniad o "anghenion addysgol arbennig" y canlynol —

> "ystyr "asesiadau gan athrawon" ("*teacher assessment*") yw asesiadau o ddisgyblion a wneir gan athrawon er mwyn penderfynu lefel y cyrhaeddiad y maent wedi'i chyflawni yn y Gymraeg, y Saesneg, gwyddoniaeth neu fathemateg, ac y gwneir darpariaeth asesu ar eu cyfer gan orchmynion neu o dan orchmynion a wneir o dan adran 108(3)(c) o Ddeddf Addysg 2002 sydd mewn grym pan wneir yr asesiadau".